CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD MISOL
24.11.2011 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS
LLANBEDR PONT STEFFAN

Bu i'r Gyngh. Andrew Carter offrymu gweddi.

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD A GWEDDI AGORIADOL

Bu i'r Cyn-Faer y flwyddyn ynghynt sef y Cyngh. Rob Phillips gadeirio'r 10 munud cychwynnol oherwydd absenoldeb y Maer Hag Harris, gan ei fod wedi mynychu Ffair Nadolig yr Ysgol Uwchradd. Croesawyd yr holl a oedd yn bresennol i'r Cyfarfod gan y Cyngh. Phillips.

YN BRESENNOL

Y Maer Cyngh. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris (Cadeirydd)
Cyngh. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis; John Davies;
Margaret Davies-Evans; Greg Evans; Rob Phillips;
Selwyn Walters & Derek Wilson.
Maria Wilding, Cyngor Sir Ceredigion (CSC);
Mr Gerald Morgan;
Plismon Richard Marshall.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngh. John Davies, Dirprwy-Faer Cyngh. Kistiah Ramaya; Chris Thomas, Dorothy Williams.

CYFLWYNIADAU

3. BALCHDER PENTREFI

Cronfa Adnewyddu Pentrefi Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion. Derbyniwyd y cyflwyniad cyntaf gan Maria Wilding, Swyddog Prosiect Cyngor Sir Ceredigion (CSC).

Gall Cynghorau Cymuned a Thref Ceredigion neu sefydliadau cysylltiedig gael mynediad i'r gronfa hon er mwyn gwella golwg eu Cymunedau a'u gwneud yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Gall y Gronfa gyllido:

3.1 Gwaith Cyfalaf sydd yn gwella mannau cyhoeddus &

3.2 Cynlluniau Tirlunio a phlannu mewn mannau agored, gwelliannau i seddi cyhoeddus a goleuadau ynni isel, gwelliannau i fannau aros ar gyfer cludiant cyhoeddus, arwyddion cyhoeddus neu baneli gwybodaeth. (gwelliannau allanol yn unig)

- Cyfyngir ar faint y grantiau i £20,000 ar gyfer pob cais;
- Bydd graddfeydd y grantiau'n amrywio gydag uchafswm ymyrraeth o 60% yn ddibynnol ar natur y gwaith
- Gall cyllid cyfatebol fod ar ffurf arian parod, grantiau eraill neu roddion eraill.
- Gweithredir y cynllun ar ffurf rhaglen dreigl a gellir gwneud cais unrhyw bryd tan Fehefin 2013.
- Nid yw Lleoedd Chwarae Cymunedol a Goleuadau Stryd yn gymwys am grant o dan y Cynllun.

Penderfynwyd hysbysu mudiadau yn Llambed o'r prosiect ee y Sgowtiaid. Bydd yn ofynnol i'r CT i gymeradwyo'r cais petai'r mudiad am gyflwyno cais am grant.

4. LLYFR EMYNAU AR GYFER LLAMBED

Derbyniwyd yr ail-gyflwyniad gan Mr Gerald Morgan yn ymwneud â Llyfr Emynau yr hoffai gyflwyno i Lambed ym mis Hydref 2012. Bydd y Llyfr

Emynau yn gasgliad o 25 Emynau Saesneg, yn Gristionogol o ran naws ac wedi eu cyfansoddi a'u hysgrifennu gan Mr Morgan. Bydd yn ddathliad o fudiadau, unigolion a lleoedd addoli. Penderfynwyd cefnogi'r fentr ac i ganiatau bod arwydd ar arfbais y Cyngor Tref yn ymddangos ar glawr cefn y llyfr.

5. MATERION PLISMONA

5.1 Cyfarfod Ymgynghorol Cymunedol ar y Cyd Ceredigion 2011: Dydd Mercher 2 Tachwedd 2011 am 6.45pm yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron. Bu i'r Maer fynychu'r Cyfarfod. Materion a drafodwyd: **Etholiad Comisiynydd yr Heddlu**: Plismona wedi ei seilio ar risg; Paneli'r Heddlu; a chanoli gwasanaethau.

5.2 Bu i'r Plismon Richard Marshall ddiweddaru aelodau parthed troseddau sef bod:

5.2.1 Safle'r Deml Baganiadd wedi ei fandaleiddio;

5.2.2 Troseddwyr a oedd yn teithio o le i le wedi dwyn oddeutu £3,000 o golur oddi ar Fferyllydd y dref;

5.2.3 3 gŵr ieuanc wedi'u harestio am drosedd yn ymwneud â rhyw o dan oed caniatâd;

5.2.4 Lladrad Cyffuriau wedi cymryd lle.

5.3 Y mae Arolygydd wedi ei apwyntio i Lambed i wasanaethu ardal eang.

5.4 Ynglŷn â Digwyddiadau ee Dydd Sul y Cofio, pan fydd heolydd ar gau i draffig, rhaid cyflwyno cais i'r Awdurdod Lleol**.**

6. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU Dim wedi eu datgan.

7. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 27ain O Hydref: Penderfynwyd llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r CT a gynhaliwyd ar y 27ain o Hydref a'u derbyn yn gofnod cywir.

8. MATERION YN CODI

8.1 Prynu Gliniadur: Soniodd y Cyngh. Phillips ei fod wedi archebu'r gliniadur - amcanbris £440.

8.2 Bwcabus (Atodiad 1)

Bu i'r Cyngh. Phillips gynrychioli'r Cyngor Tref yn ystod y Cyflwyniad Bwcabus o'r 1af Tachwedd. Bwcabus yw'r gwasanaeth bws lleol newydd, sydd yn gwbl hygyrch. Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwrea i anghenion y teithwyr drwy weithredu mewn ymateb i geisiadau ymlaen llaw am gludiant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. (Atodiad 1)

Y mae'r gwasanaeth Bwcabus , sy'n cael ei redeg gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn helpu pobl mewn rhannau gwledig o Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i deithio i'w gwaith neu i gyrraedd gwasanaethau addysg, hyfforddiant ac iechyd. Hwn yw'r prosiect cyntaf o'r fath yng Nghymru, ac mae'n arloesi drwy alluogi pobl i ddal y bws ger eu cartref neu yn yr arhosfan bws agosaf cyn ymuno wedyn â'r gwasanaethau bws a thrên arferol.

Lansiwyd y gwasanaeth Bwcabus yn 2008, gyda £350,000 gan Lywodraeth Cymru a £500,000 o gyllid o'r UE. Mae'r cynllun yn cyfuno'r dechnoleg ddiweddaraf, gan gynnwys GPS a meddalwedd amserlennu, i sicrhau bod teithwyr yn gallu cydgysylltu eu teithiau â'r prif wasanaethau bws a thrên. Ers ei sefydlu, mae Bwcabus wedi profi'n llwyddiant ysgubol, gan gipio tair gwobr genedlaethol a chyflawni llawer mwy na'r targedau gwreiddiol. Llwyddwyd i gwblhau dros 21,000 o deithiau drwy'r gwasanaeth, ac mae mwy na 900 o bobl wedi cofrestru i'w ddefnyddio.

Cymaint oedd poblogrwydd y gwasanaeth yng ngogledd Sir Gaerfyrddin a de Ceredigion fel bod y galw am Bwcabus wedi cynyddu 40% yn y flwyddyn

gyntaf. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r dirywiad cyffredinol yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad.
Meddai Carl Sargeant, y Gweinidog dros Lywodraeth Lleol a Chymunedau: "Mae'r gwasanaeth Bwcabus poblogaidd hwn yn trawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad gorllewin Cymru– drwy helpu pobl i gyrraedd gwasanaethau allweddol, teithio i'w gwaith a manteisio ar gyrsiau hyfforddiant a chyfleoedd addysgol eraill.
"Wrth estyn y gwasanaeth Bwcabus i rannau newydd o Ddyffryn Teifi yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion byddwn yn darparu gwasanaeth cost-effeithiol i deithwyr mewn mannau anghysbell ac yn cynnal cysylltiad hollbwysig rhwng lleoliadau gwledig a threfol yn y gorllewin."
Datblygwyd y model gwreiddiol ar gyfer y cynllun peilot tair-blynedd ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Prifysgol Morgannwg. Mae'r ganolfan yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth dechnegol i'r prosiect, a fydd, o bosibl, yn cael ei estyn i bob rhan o gefn gwlad Cymru yn y pen draw.
Cyngor Sir Gaerfyrddin sy'n rhedeg y gwasanaeth presennol, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, Llywodraeth Cymru, Traveline Cymru, Richards Brothers a Morris Travel.
O Ddydd Llun 5ed Rhagfyr 2011, bydd y gwasanaeth yn cael ei ymestyn i Lanwnnen a Chribyn. Ni fydd y gwasanaeth Trwscambria X40 yn cael ei effeithio gan y newidiadau ac yn dal i weithredu yn ôl yr amserelen arferol sydd wedi ei hysbysu. Am wybodaeth pellach ynglŷn â Bwcabus cysylltwch â'r gwefan http://www.bwcabus.traveline-cymru.info/ neu galw 01239 801 801.

8.3 Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf:

8.3.1 A all Cynghorau Tref a Chymuned gyfiawnhau gwariant er mwyn darparu yn eu hardaloedd biniau wedi eu llenwi â halen / tywod / graen yn ychwanegol i'r rai hynny a brynwyd ac a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol o ran ei obligiadau statudol Ad. 137 (1) Deddf Llywodraeth Lleol 1972 ond wedi ei gyfyngu i Ad. 137 (4) o'r Ddeddf 1972.

8.3.2 A all y Cyngor Tref ariannu'r Awdurdod Priffyrdd i ymestyn y ffyrdd sydd wedi eu clustnodi ar gyfer clirio eira a rhew ganddynt hwy? Ateb: Na. Nid oes gan Gynghorau Tref a Chymuned yr awdurdod na'r cyfrifoldeb i glirio eira a rhew oddi ar heolydd. Rhaid iddynt ofalu na fyddant yn dioddef dyledion cyfreithiol a allai godi oherwydd gweithredoedd esgeulus.

8.3.3 A all Cynghorau Cymuned wario arian (na fydd yn gyfraniad i'r hyn a wariwyd gan yr Awdurdod Lleol i gyflogi staff i gynnal ei wasanaeth Gaeaf) i gyflogi pobl i gynorthwyo i glirio eira a rhew ar y priffyrdd – (Caniateir o dan Ad. 137 (2) o'r Ddeddf 1972). Ateb: Oes. Gellir gwario'r arian o dan Ad. 137 (1) ond ond wedi ei gyfyngu i Ad. 137 (4) o'r Ddeddf 1972. Byddai'n briodol petai dyletswydd swydd y rhai a gyflogwyd yn cael ei gyfyngu i gario'r halen/graen/tywod i leoedd ble gall pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd helpu eu hun i'r halen neu pobl lleol ble mae'r biniau halen/graen/ tywod wedi eu darparu'n ychwanegol gan y Cyngor Tref. **Nodwyd er gwybodaeth.**

8.4 Cyfarfod Ymgynghorol CSC 1.11.2011 am 7pm- Gorsaf Dân Llambed. Bu i aelodau gyfarfod ag Arweinydd y Cyngor Sir y Cyngh. Keith Evans a Mr Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus i drafod materion o gonsyrn.
Bu i'r Cyngh. Evans son am y toriadau sy'n gwynebu'r Cyngor Sir a'r angen i gydweithio ag Awdurdodau Lleol er mwyn gwneud arbedion. Ee gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys yn y maes **priffyrdd.** Bu iddo

gyfeirio i'r *Adroddiad Simpson* a chynnal gwasanaethau'n genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol. Bydd y cyfalaf yn cael ei dorri gan 45% yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Y mae benthyg arian yn opsiwn ar gyfer y Cyngor Sir. Y mae'r her ariannol yn aruthrol ac ar yr un pryd y mae pwysau ar y cyngor sir i ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon mewn meysydd mor eang â dysgu gydol oes, diogelwch plant a pobl bregus; diogelwch ar yr heol; rhaglenni adnewyddu ac i hybu economi

Y mae CSC yn blaenoriaethu Addysg 2) Gwasanaethau Cymdeithasol 3) Priffyrdd, Eiddo & Gwaith 4) Holl adrannau eraill . Y mae'r Cyngor Sir yn gweithio â Mr Carl Sargeant Gwenidog Llywodraeth Leol. Bu i'r Cyng. Evans gyfeirio at 2 ddigwyddiadd yn ymwneud â Cheredigion sef Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 a Sioe Llanelwedd 2010. Soniodd hefyd am y Fflam Olympaidd Llundain 2012 sydd yn cael ei gario drwy'r sir yn ystod mis Mai y flwyddyn nesaf.

Dywedodd Mr Eifion Evans y byddai gwell system o gyfathrebu'n cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir yn ystod y dyfodol agos pan yn cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd cyfeirnod yn cael glustnodi ar gyfer pob cais ar ebost/ffôn cychwynnol a rhaid cyfeirio i'r cyfeirnod bob amser pan fydd cyfathrebu pellach. Nid oedd o blaid cyflwyno sawl cais ar un neges ebost neu ffôn.

Trafodwyd hefyd y *Cynllun Grant Balchder Pentrefi* (Cofnod 3 gweler uchod) Cyflwynwyd cwestiynau ymlaen llaw ee Bwcabws; cau Hyfforddiant Ceredigion o fewn y dref- dywedwyd y dylai fod digon o alw am y gwasanwth yn y dref i gyfiawnhau ei ddarpariaeth; gweithio Siarter – trefniadau'n mynd yn eu blaen rhwng CSC ac Un Llais Cymru; Clirio Eira yn ystod y Gaeaf a'r **Llwybr Beic-**

Soniodd Mr Evans fod grym buddsoddiad mewn addysg wedi cymryd lle'n Llambed yn ystod y gorffennol diweddar (adeilad newydd i'r Ysgol Gynradd; Ysgol 3-19 oed a'r Llain Pêl Droed Aml-bwwrpas). Roedd Cae Maesyderi eisoes wedi ffurfio rhan o Stâd yr Hen Ysgol Gynradd a dylai unrhyw arian sy'n codi o'r cae gael ei gadw o fewn yr Adran Addysg a'i defnyddio i gwrdd ag ychydig o'r gost yn ymwneud â'r Ysgol 3-19 oed.

8.5 **Cadwyn y Maer**: dim datblygiadau.

8.6 **Parti-Nadolig Ieuanc Mewn Ysbryd:** dyddiad wedi ei osod 7ed o Rhagfyr am 2pm yn y Neuadd Fictoria- trafodwyd y trefniadau ymhellach.

8.7 **Mabwysiadu Cynllun Llifogydd ar gyfer y Gymuned**: penderfynwyd i beidio â llunio Cynllun Llifogydd ar gyfer y dref ond i gadw llygad ar broblemau fel y maent yn codi. Y mae pob draen arwynebol ar y priffyrdd yn gyfrifoldeb y CSC. Y mae Dŵr Cymru'n yn gyfrifol am y gwaelodion llaid.

. Y mae Dŵr Cymru'n comisiynu Cyngor Sir Caerfyrddin i lanhau'r ceuffosydd a phroblemau dyfnach yn Llambed. Bu i'r Maer grybwyll y mater â Mr Richard Davies, Cyngor Sir Caerfyrddin Adran Dwroleg parthed gwaredu â'r llaid. . Soniodd Mr Davies y byddai Stryd y Bont yn cael ei drin a chael gwared â'r llaid yn fuan. Bu i'r Maer bwysleisio'r angen i gael gwared â'r llaid o'r ardal hon yn gyson. Gellir adrodd materion o gonsyrn i Dŵr Cymru ar 08000853968, Cyngor Sir Gâr 01267 234567 a Cyngor Sir Ceredigion 01545 572572.

8.8 **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor yr Henoed Ceredigion:17 Tachwedd 2011** am 2pm yn Neuadd Goffa, Aberaeron: Siaradwraig: Louise Hughes, Rheolwr Rhaglen Camdrin yr Henoed. Bu i'r Maer gynrychioli'r CT yn ystod y Cyfarfod. Enw'r mudiad yw Age Cymru.

8.9 **Cyfarfod Traffig: CSC 12.12.2011 am 2pm – nodwyd er gwybodaeth.** Cynllun Lôn Picton: Gorchymyn Cau'r Ffordd Dros-dro – ni ellir ei gyflwyno fel

arbrawf; yn hytrach gorchymyn arbrofol gwahardd gyrru er mwyn cau Lôn Picton ar ei gyffordd â Stryd y Bont.

8.10 Jiwbili Diemwnt y Frenhines Elisabeth 11: fel rhan o'r dathliad bwriedir goleuo 2,012 ffagl drwy'r DU,Ynysoedd y Sianel, Ynys Mariaw, Tiriogaeth Dros y Môr DU, a'r Gymanwlad ar Ddydd Llun 4 Mehefin 2012.

PENDERFYNWYD: Y Cyngh. Rob Phillips i ymwneud ag ymholiadau pellach.

8.11 Y mae ULLC yn golygu penodi Hyrwyddwr Hyfforddiant ymhob aelod Gyngor: i adael y mater ar y bwrdd.

9. GOHEBIAETH

9.1 Ffair Nadolig – Siambr Fasnach 8.12.2011: 5-8pm: Cau ffordd dros-dro – er gwybodaeth.

9.2 Cyngor Tref Aberystwyth: parthed toriadau ynglŷn ag Ysbyty Bronglais, Aberystwyth: i anfon llythyr at Gadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i fynegi consyrn ynglŷn ag is-raddio'r Ysbyty ac i ofyn am eglurhâd pellach.

9.3 Ceredigion Mobile Shopmobility CCB: 7.12.11 – 7pm Penmorfa, Aberaeron; Er gwybodaeth.

9.4 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru Cynllun Gweithredu Blynyddol 2012-12: er gwybodaeth.

9.5 Llyfryn Drafft: gweithgareddau a gwasanaethau i blant a theuluoedd yn Llanbed: Cathryn Morgan, RAY Ceredigion: bu i'r Maer gyflwyno sylwadau pellach parthed gweithgareddau'n y dref y gellir eu cynnwys o fewn y llyfryn.

9.6 Llythyr o Ddiolch oddi wrth Dinah Jones, Darlithydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ynglŷn â myfyrwyr newyddiaduriaeth a ddaeth i arsylwi'n ystod cyfarfod mis Hydref ac am y cymorth a ddebyniasant gan y Cyngor Tref, yn ystod ac ar ôl y cyfarfod er mwyn datblygu materion ar gyfer erthyglau'r papur newydd.

9.7 Cymru Wledig: Cylchgrawn: er gwybodaeth.

9.8 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

10. MATERION CYNLLUNIO

10.1 CANIATÂD CYNLLUNIO CSC

10.1.1 Rhif y Cais: A110633CD: BWRIAD: Codi derbynfa a lle gweinyddol newydd: Ysgol Gyfun Llambed: Ymgeisydd: Cyngor Sir Ceredigion

10.1.2 Rhif y Cais: A110753: BWRIAD: Adeiladu estyniad i'r Tŷ Clwb presennol a dymchwel y un llawr:Clwb Rygbi Llambed: Ymgeisydd: Clwb Rygbi Llambed.

10.1.3 Rhif y Cais: A110697: BWRIAD: Dymchwel wal is-raddol presennol ac adeiadu wal newydd. Depot Cilerwisc, Teras yr Orsaf, Llambed.

10.2 CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio**.**

10.3 Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC 9.11.2011: er gwybodaeth.

11. MENTER LLAMBED & TRANSITION TOWN LLAMBED (TTLL)

Transition Town Llambed yw landlord newydd Neuadd Fictoria gan ddechrau ar y 1af Rhagfyr. Y maent yn ceisio grantiau a chyllid. Bydd y gwaith cychwynnol yn cynnwys peintio wal allanol ac uwchraddio'r toiledau a'r gegin. Dywedodd y Cyngh. Greg Evans y byddai'r mudaid yn cyflwyno cais am gymhorthdal i'r CT yn ystod y dyfodol agos. Estynnwyd dymundiadau gorau i TTLL yn ei ymdrech i ddatblygu'r neuadd at ddibenion y gymuned.

12. CYLLID

12.1 Pwll Nofio Llambed: Disgwylir y Fantolen Ariannol dros gyfnod y trosglwyddiad i'r CSC.

12.2 TALIADAU

12.2.1 Cyflog y Clerc Hydref 2011: £597.**02; EM Cyllid a Thollau** £68.10

12.2.2 Taflenni: Dydd Sul y Cofio: £22.50

12.2.3 Mr Gwynne Davies: Hurio meicroffon Dydd Sul Y Cofio: £60.00
12.2.4 Cynllun Electronig y Llwybr Beic: £15.00
12.2.5 Parc-yr-Orsedd: toriad ychwanegol: Mr E. Williams: £90.50
12.2.6 Plethdorch y Pabi Coch: d/l Cyngh. J. Davies £20.00
12.2.7 Hurio Neuadd y Dref; Cyfarfod 24.11.2011 £18.75

12.3 DERBYNIADAU
Dim.

12.4 CESIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
12.4.1 Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Morgannwg: £100
12.4.2 Homestart Ceredigion £50.00
12.4.3 Eisteddfod Ryngwladol Llangollen: i beidio â gwneud cyfraniad.

13. IS-BWYLLGORAU

13.1 GOLEUADAU STRYD:
i adrodd nam golau ffoniwch 01545 572 572 neu anfon ebost at hpw@ceredigion.gov.uk gan ddyfynnu'r lleoliad neu'r rhif cyfeirnod. Golau'n ddiffygiol yng nghyffuniau Barley Mow. **PENDERFYNWYD adrodd y nam at sylw'r CSC**.

13.2 PALMANTAU
Ni dderbyniwyd adroddiad,

13.3 LLWYBRAU CERDDED
Dim i'w hadrodd.

13.4 PARC-YR-ORSEDD: Adroddodd y Cyngh Chris Thomas fod trefniadau mewn lle i drwsio'r pedalau'r Gorsfeydd Ymarfer Corff gan ddyfynnu amcanbris o £170.69. Y mae angen tocio'r clawdd, cael gwared â'r graffiti ar y castell, disodli'r bont a gosod spring ar gyfer y gât.
Bu i'r Cyng Chris Thomas gyfarfod â'r Arolygydd Meysydd Chwarae Digley Associates ar yr 31.10.2011: disgwylir adroddiad ffurfiol.

13.5 CAMERAU TELEDU CYLCH CYFYNG (CTCC)
Adroddiad Misol Hydref 2011: ni dderbyniwyd gan y Cyngor Sir.

13.6 RHEOLI CAE MAESYDERI
(Cofnodion cyfarfod o'r 16.11.2011 ynghlwm)
Bu i'r Cyng Chris Thomas gyfarfod â'r Arolygydd Meysydd Chwarae Digley Associates ar yr 31.10.2011: disgwylir adroddiad ffurfiol.

14. UFA

14.1 Dywedodd y Gyngh. Elsie Dafis y byddai Canolfan Alw'n agor yn ystod y dyfodol agos yn y dref gan greu 15 o swyddi newydd ac yn hwb i'r economi leol.

14.2 Penderfynwyd anfon llythyr at y Prif Weithredwr i ddiolch i'r Cyngor Sir am ddarparu blodau i'w harddangos yn y dref dros fisoedd yr haf.

14.3 Sioe Da Pluog: 21ain Rhagfyr 2011.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.35pm.

15. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

15.1 CYFARFOD CYLLIDEBOL: DYDD IAU 12 IONWR AM 7.30PM NEUADD YR EGLWYS.

15.2 CYFARFOD PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI 18ED O IONAWR AM 6.30PM SWYDDFA MENTER LLAMBED.

15.3 CYFARFOD MISOL: NOS IAU 26AIN IONAWWR NEUADD YR EGLWYS AM 7.30PM.

----------(arwyddwyd a dyddiad)